cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2023/24

# CCG1 Ffurflen Gais am Grant Gofal Plant

## Eich costau gofal plant wythnosol a amcangyfrifir

### Sut i wneud cais am y Grant Gofal Plant

Cyn i chi lenwi’r ffurflen hon, gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi’ch prif gais am gyllid i fyfyrwyr.

Llenwch y ffurflen hon er mwyn nodi’ch costau gofal plant **a amcangyfrifir**. Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth hon er mwyn cyfrifo swm y Grant Gofal Plant y gallwch ei gael. Rhaid bod unrhyw blant yr ydych chi’n hawlio Grant Gofal Plant ar eu cyfer yn ddibynnol arnoch chi’n ariannol.

### Pam amcangyfrif eich costau gofal plant nawr?

Mae rhoi’ch amcangyfrifon nawr yn golygu y gallwn gyfrifo faint fydd eich taliad cyntaf a’i gael yn barod ar eich cyfer cyn gynted ag y bo modd.

### Heb fod yn gwybod pwy fydd eich darparwr(darparwyr) gofal plant eto?

Peidiwch â gofidio – gallwch wneud cais am y Grant Gofal Plant o hyd ar sail eich costau gofal plant a amcangyfrifir, hyd yn oed os nad oes gennych chi fanylion eich darparwr eto.

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn llenwi'r ffurflen hon.

SFW/CCG1/2324/A

Chwiliwch amdanom ar facebook.com/SFWales


Dilynwch ni ar twitter.com/sf_wales

# Gwybodaeth am y Grant Gofal Plant

## Faint allech chi ei gael?


Bydd swm y Grant Gofal Plant y gallech ei gael yn seiliedig ar y costau gofal plant a amcangyfrifir y byddwch yn eu rhoi i ni, nifer y plant sydd gennych ac sy'n cael gofal plant, ac incwm eich cartref.

Os allwch roi manylion eich darparwr(darparwyr) gofal plant cofrestredig neu gymeradwy i ni, uchafswm y Grant Gofal Plant y gallech ei gael yw:



### = hyd at uchafswm o £187 yr wythnos

Os oes gennych chi **un plentyn** sy'n cael gofal plant, gallech gael hyd at uchafswm o £187 yr wythnos, neu 85% o gyfanswm eich costau gofal plant (pa un bynnag yw'r lleiaf).



### = hyd at uchafswm o £321 yr wythnos

Os oes gennych chi **ddau o blant neu fwy** sy'n cael gofal plant, gallech gael hyd at uchafswm o £321 yr wythnos, neu 85% o gyfanswm eich costau gofal plant (pa un bynnag yw'r lleiaf).

Os na allwch roi manylion eich darparwr(darparwyr) gofal plant cofrestredig neu gymeradwy i ni eto, uchafswm y Grant Gofal Plant y gallech ei gael yw £144 yr wythnos, neu 85% o gyfanswm eich costau gofal plant (pa un bynnag yw'r lleiaf). Byddwn yn adolygu hyn ar ôl i chi gadarnhau manylion eich darparwr gofal plant.

## Sut a phryd y byddwch yn cael eich talu?

Byddwn yn anfon llythyr hawl atoch, a fydd yn nodi faint fyddwch yn ei gael a phryd y byddwch yn cael eich talu.

Telir eich Grant Gofal Plant mewn tri rhandaliad fel arfer, gyda gweddill eich cyllid i fyfyrwyr. Fe'i telir i'ch cyfrif banc yn syth. Yna, gallwch ei ddefnyddio er mwyn talu eich darparwr(darparwyr) gofal plant.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd eich costau gofal plant a amcangyfrifir yn ein helpu i gyfrifo swm eich tri thaliad Grant Gofal Plant.

Wyth wythnos ar ôl i'ch blwyddyn academaidd gychwyn, bydd angen i chi a'ch darparwr gofal plant gadarnhau'r symiau go iawn a godwyd arnoch chi. Byddwn yn anfon ffurflen Cadarnhau Costau Gofal Plant (CCG2) atoch er mwyn gwneud hyn.

Mae'n bwysig eich bod yn llenwi ac yn dychwelyd eich ffurflenni CCG2. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallai'ch Grant Gofal Plant gael ei stopio ac fe allech gael cais i ad-dalu'r hyn a dalwyd i chi yn barod.

Byddwn yn adolygu'ch Grant Gofal Plant gan ddefnyddio'r costau gofal plant go iawn sy'n cael eu cadarnhau yn eich ffurflen CCG2, ac fe allem godi neu ostwng eich taliad nesaf ar sail unrhyw wahaniaeth rhwng eich costau a amcangyfrifir a'ch costau go iawn.

Fel arfer, byddwn yn anfon dwy ffurflen CCG2 bellach atoch yn ystod y flwyddyn academaidd er mwyn cadarnhau'ch costau gofal plant go iawn, gan barhau i addasu'ch taliadau yn ôl yr angen.

## Pa fathau o ofal plant fydd yn gymwys?

Ar yr amod bod eich darparwr gofal plant wedi cofrestru gyda neu wedi cael eu cymeradwyo gan gorff priodol megis Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), gallwch hawlio Grant Gofal Plant.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth ynghylch a fydd eich gofal plant yn gymwys er mwyn cael y Grant Gofal Plant trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Sut i lenwi’r ffurflen hon

- **Dylech lenwi adrannau 1 a 2** er mwyn dweud wrthym amdanoch chi, unrhyw blant sydd gennych ac y byddant yn cael gofal plant a’ch costau gofal plant a amcangyfrifir.
- **Dylech lenwi adran 3** os ydych chi’n gwybod pwy fydd eich darparwr(darparwyr) gofal plant.
- **Dylech lenwi tudalen y datganiad** – sicrhewch eich bod yn darllen, yn llofnodi ac yn dyddio’r datganiad.
- Efallai y byddwn yn rhannu eich manylion gyda HMRC i sicrhau nad ydych yn derbyn unrhyw gefnogaeth gofal plant ganddynt.

# Adran 1 Eich manylion personol

**1.1 Cyfeirnod Cwsmer**

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

**1.2 Eich manylion**

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Dyddiad geni

Diwrnod Mis Blwyddyn

☐☐☐☐☐☐☐☐

Cyfeiriad y cartref presennol

Cod post

## Dewisiadau Amgen i’r Grant Gofal Plant

**1.3 Yn ystod y flwyddyn academaidd, a ydych chi neu’ch partner yn disgwyl cael:**

- **elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu’r Credyd Cynhwysol; neu** ☐ **Nac ydw/ nac ydy** ☐ **Ydw/ydy -** darllenwch y nodyn isod
- **Gofal Plant Di-dreth gan HMRC; neu** ☐ **Nac ydw/ nac ydy** ☐ **Ydw/ydy -** darllenwch y nodyn isod
- **Lwfans Gofal Plant gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) fel rhan o becyn cyllid i fyfyrwyr** ☐ **Nac ydw/ nac ydy** ☐ **Ydw/ydy -** darllenwch y nodyn isod

**! Os byddwch yn rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o’r cwestiynau yn 1.3, ni allwch ymgeisio am Grant Gofal Plant ar hyn o bryd.**
**Dim ond os byddwch yn stopio hawlio cefnogaeth gan unrhyw un o'r ffynonellau uchod allwch chi wneud cais am Grant Gofal Plant.**

# Manylion eich gofal plant

**Yn yr adran hon, bydd angen i chi ddweud wrthym faint yr ydych yn disgwyl ei dalu bob wythnos am ofal plant yn ystod y flwyddyn academaidd hon.**

## Sut i amcangyfrif eich costau gofal plant

Mae'n bwysig amcangyfrif eich costau mor fanwl ag y gallwch. Bydd hyn yn helpu i atal newidiadau annisgwyl i'ch taliadau yn y dyfodol. Os nad ydych yn siŵr faint fydd rhaid i chi ei dalu am ofal plant, dylech ystyried y manylion canlynol er mwyn sicrhau bod eich amcangyfrif mor gywir ag y bo modd:

- am sawl diwrnod yr wythnos fydd angen i chi gael y gofal plant
- y mathau o ofal plant fydd eu hangen arnoch (fel ysgol feithrin, gwarchodwyr plant neu glybiau ar ôl ysgol)
- faint mae'r darparwyr gofal plant yn eich ardal yn ei godi
- os byddwch yn cael unrhyw oriau gofal plant am ddim, ni ddylech hawlio'r Grant Gofal Plant ar gyfer y rhain

**! Cofiwch: dylech wneud cais cyn gynted ag y gallwch er mwyn i ni allu cyfrifo swm eich taliad cyntaf a sicrhau ei fod yn barod ar eich cyfer cyn gynted ag y bo modd.**

# Adran 2 Manylion eich gofal plant

**!**

**A ydych chi'n hawlio'r Grant Gofal Plant ar gyfer dau o blant neu fwy?**

Dylech gynnwys copi arall o'r dudalen hon, ynghyd â manylion eich plant eraill, pan fyddwch yn anfon y ffurflen hon. Gallwch lungopïo hon neu lawrlwytho copi arall o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Plant sy'n cael gofal plant

| | Plentyn 1 | Plentyn 2 |
|---|---|---|
| **2.1.1 Manylion y plentyn** | Enw(au) cyntaf ☐<br>Cyfenw ☐<br>Dyddiad geni<br>Diwrnod Mis Blwyddyn ☐☐☐☐☐☐☐☐ | Enw(au) cyntaf ☐<br>Cyfenw ☐<br>Dyddiad geni<br>Diwrnod Mis Blwyddyn ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| **2.1.2 Costau wythnosol arferol (amcangyfrifon)** | £ ☐ | £ ☐ |

• Ni ddylech gynnwys unrhyw ofal plant sy'n lle gofal plant am ddim, er enghraifft gan y Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar.

| | Plentyn 1 | Plentyn 2 |
|---|---|---|
| **2.1.3 Dyddiad cychwyn y gofal plant**<br>Dechrau'ch blwyddyn academaidd yw'r adeg gynharaf y bydd modd i ni dalu eich costau gofal plant. | Diwrnod Mis Blwyddyn ☐☐☐☐☐☐☐☐ | Diwrnod Mis Blwyddyn ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| **2.1.4 Dyddiad gorffen y gofal plant**<br>Os ydych ym mlwyddyn olaf eich cwrs, dim ond tan ddiwrnod olaf eich tymor olaf fydd modd i ni dalu'r Grant Gofal Plant. | ☐ **Bydd fy ngofal plant yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd hon.**<br>☐ **Ar ddiwedd tymor 3.**<br>☐ **Ar y dyddiad a nodir isod.**<br>Diwrnod Mis Blwyddyn ☐☐☐☐☐☐☐☐ | ☐ **Bydd fy ngofal plant yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd hon.**<br>☐ **Ar ddiwedd tymor 3.**<br>☐ **Ar y dyddiad a nodir isod.**<br>Diwrnod Mis Blwyddyn ☐☐☐☐☐☐☐☐ |

**!**

**Dylech gadw cofnod o'r costau gofal plant a amcangyfrifir a ddarparwyd gennych. Efallai y byddwch yn dymuno diwygio'ch amcangyfrifon yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn.**

# Adran 2 Manylion eich gofal plant – parhad

## Gwahaniaethau o'ch costau gofal plant wythnosol arferol

Rydym yn sylweddoli y bydd adegau yn ystod y flwyddyn academaidd efallai pan fydd eich costau gofal plant wythnosol yn wahanol i'r amcangyfrifon wythnosol arferol a nodwyd gennych. Gallai hyn fod oherwydd gwyliau prifysgol, gwyliau ysgol eich plentyn neu adegau pan fyddwch chi wedi trefnu gofal plant amgen.

**2.2 Dywedwch wrthym am unrhyw wahaniaethau yn y tabl isod.**

| **Enw'r plentyn** | **Rheswm dros y gwahaniaeth yn y costau wythnosol a amcangyfrifir** | **Rhwng** (Diwrnod – Mis – Blwyddyn) | **A** (Diwrnod – Mis – Blwyddyn) | **Costau gofal plant wythnosol a amcangyfrifir rhwng y dyddiadau hyn (£)** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## A allwch newid eich amcangyfrifon ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen?

Gallwch ddweud wrthym am newid i'ch costau gofal plant neu'ch darparwr gofal plant ar unrhyw adeg, trwy anfon copi arall o'r ffurflen hon (CCG1) gyda'ch manylion wedi'u diweddaru.

## ! A ydych chi wedi anfon yr holl ddogfennaeth am eich plant y mae angen i ni ei chael?

Rhaid bod unrhyw blant yr ydych chi'n hawlio Grant Gofal Plant ar eu cyfer fod yn ddibynnol arnoch chi'n ariannol.

Os ydych chi wedi anfon dogfennau er mwyn profi hyn fel rhan o'ch prif gais am gyllid i fyfyrwyr yn barod, ni fydd yn rhaid i chi eu hanfon eto. Os nad ydych, anfonwch lungopi o'u tystysgrifau geni atom, yn ogystal â'ch Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth diweddaraf, llythyr Credyd Cynhwysol neu lythyr Budd-dal Plant sy'n profi eu bod yn ddibynnol arnoch chi'n ariannol.

# Adran 3 Manylion eich darparwr(darparwyr) gofal plant

Efallai y byddwn yn rhannu'r manylion y darparwr gofal plant a ddarparwch gyda'r awdurdod cofrestru/cymeradwyo perthnasol i gadarnhau eu cofrestriad/cymeradwyaeth. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o weithgaredd twyllodrus, byddwn yn rhannu manylion y darparwr a roddoch i ni gyda Cifas.

Mae angen i chi ddweud wrth eich darparwr gofal plant eich bod wedi rhoi eu manylion i ni.

**3.1 A ydych chi'n gwybod pwy fydd eich darparwr(darparwyr) gofal plant?**

☐ **Nac ydw -** darllenwch a llofnodwch y datganiad ar dudalen 9

☐ **Ydw -** nodwch eu manylion isod, yna darllenwch a llofnodwch y datganiad ar dudalen 9.

## Darparwr gofal plant 1

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Enw(au)'r plentyn(plant) y maent yn darparu gofal ar eu cyfer

**Manylion Cofrestru**

Enw'r awdurdod cofrestru/cymeradwyo

Rhif cofrestru/cymeradwyo

Dyddiad cofrestru/cymeradwyo

Diwrnod Mis Blwyddyn

Siaradwch â'ch darparwr gofal plant er mwyn cadarnhau'r **holl** wybodaeth hon. Mae'n bwysig iawn bod yr wybodaeth hon yn gywir.

## Darparwr gofal plant 2

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Enw(au)'r plentyn(plant) y maent yn darparu gofal ar eu cyfer

**Manylion Cofrestru**

Enw'r awdurdod cofrestru/cymeradwyo

Rhif cofrestru/cymeradwyo

Dyddiad cofrestru/cymeradwyo

Diwrnod Mis Blwyddyn

Siaradwch â'ch darparwr gofal plant er mwyn cadarnhau'r **holl** wybodaeth hon. Mae'n bwysig iawn bod yr wybodaeth hon yn gywir.

# Adran 3 Manylion eich darparwr(darparwyr) gofal plant – parhad

! **A oes gennych chi fwy na phedwar darparwr gofal plant?**
Dylech gynnwys copi arall o'r dudalen hon gyda'ch ffurflen wedi'i llenwi. Gallwch lungopïo hon neu lawrlwytho copi arall o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Darparwr gofal plant 3

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Enw(au)'r plentyn(plant) y maent yn darparu gofal ar eu cyfer

**Manylion Cofrestru**

Enw'r awdurdod cofrestru/cymeradwyo

Rhif cofrestru/cymeradwyo

Dyddiad cofrestru/cymeradwyo

Diwrnod Mis Blwyddyn

Siaradwch â'ch darparwr gofal plant er mwyn cadarnhau'r **holl** wybodaeth hon. Mae'n bwysig iawn bod yr wybodaeth hon yn gywir.

## Darparwr gofal plant 4

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Enw(au)'r plentyn(plant) y maent yn darparu gofal ar eu cyfer

**Manylion Cofrestru**

Enw'r awdurdod cofrestru/cymeradwyo

Rhif cofrestru/cymeradwyo

Dyddiad cofrestru/cymeradwyo

Diwrnod Mis Blwyddyn

Siaradwch â'ch darparwr gofal plant er mwyn cadarnhau'r **holl** wybodaeth hon. Mae'n bwysig iawn bod yr wybodaeth hon yn gywir.

# Datganiad a'r camau nesaf

## Eich datganiad

- Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol parthed trydydd parti, rwyf wedi eu hysbysu o hyn.
- Rydw i'n cadarnhau bod yr amcangyfrifon gofal plant a ddarperais mor gywir ag y bo modd hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael i mi ar yr adeg hon.
- Rydw i'n cadarnhau bod gweddill yr wybodaeth a ddarperais yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Os nad yw, deallaf na fyddaf efallai yn cael cymorth ariannol; y gallai unrhyw gymorth ariannol a gefais gael ei dynnu yn ôl ac y gallwn gael fy erlyn.
- Os bydd fy nghostau gofal plant yn wahanol i'r amcangyfrifon a ddarparir, deallaf y gallai taliadau pellach o'm Grant Gofal Plant gynyddu neu ostwng yn unol â hyn. Os nad oes unrhyw daliadau Grant Gofal Plant pellach yn mynd i gael eu talu i mi, deallaf y gallai fod gofyn i mi ad-dalu unrhyw wahaniaeth.
- Os na fyddaf yn darparu tystiolaeth o'm costau gofal plant o fewn yr amserlenni a bennwyd, deallaf y gallwn golli fy hawl i gael y Grant Gofal Plant.
- Os na fyddaf yn cael fy ngofal plant neu os byddaf yn newid i ddarparwr gofal plant nad yw'n gofrestredig nac wedi'i gymeradwyo, deallaf y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw ordaliad o ran y Grant Gofal Plant.
- Rydw i'n cadarnhau nad ydw i na fy ngŵr, fy ngwraig, fy mhartner sifil na fy mhartner yr wyf yn cyd-fyw â nhw wedi dewis cael cymorth ar gyfer gofal plant gan elfen gofal plant: (i) y Credyd Treth Gwaith; (ii), y Credyd Cynhwysol; (iii) Gofal Plant Di-dreth; a/neu (iv) Lwfans Gofal Plant GIG; ac rydw i'n cytuno dweud wrth SLC ar unwaith os byddaf i neu fy ngŵr, fy ngwraig, fy mhartner sifil neu fy mhartner yr wyf yn cyd-fyw â nhw yn cael y cymorth hwn. Deallaf fod SLC yn cadw'r hawl i rannu fy nata personol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) er mwyn archwilio a ydw i'n cael cymorth gofal plant gan HMRC.

**! Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi'r datganiad mewn inc. Ni dderbynnir llofnodion digidol.**

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

X

Dyddiad heddiw

Diwrnod Mis Blwyddyn

## Y camau nesaf

| Pryd fydd/wnaeth eich cwrs gychwyn? | Beth yw'r dyddiad heddiw? | Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf |
|---|---|---|
| **Rhwng 1 Awst 2023 a 31 Rhagfyr 2023** | Cyn 23 Hydref 2023 | Anfonwch eich ffurflen CCG1 atom nawr. |
| | Ar neu ar ôl 23 Hydref 2023 | Bydd angen i chi gadarnhau'r swm mae'ch darparwr gofal plant wedi'i godi arnoch tan 29 Hydref. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi lenwi ffurflen CCG2. **Rhaid** i chi anfon eich ffurflenni CCG1 a CCG2 atom **ar yr un pryd** – os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd yn oedi'r broses o dalu'ch Grant Gofal Plant.<br>Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen CCG2 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** |

**! Os bydd eich cwrs yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr 2024, trowch i'r dudalen nesaf er mwyn cael gwybod eich camau nesaf.**

# Datganiad a chamau nesaf – parhad

## Y camau nesaf (parhad)

| Pryd fydd/wnaeth eich cwrs gychwyn? | Beth yw'r dyddiad heddiw? | Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf |
|---|---|---|
| **Rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Mawrth 2024** | Cyn 19 Chwefror 2024 | Anfonwch eich ffurflen CCG1 atom nawr. |
| | Ar neu ar ôl 19 Chwefror 2024 | Bydd angen i chi gadarnhau'r swm mae'ch darparwr gofal plant wedi'i godi arnoch tan 25 Chwefror. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi lenwi ffurflen CCG2. **Rhaid** i chi anfon eich ffurflenni CCG1 a CCG2 atom **ar yr un pryd** – os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd hyn yn oedi'r broses o dalu'ch Grant Gofal Plant. Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen CCG2 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** |
| **Pryd fydd/wnaeth eich cwrs gychwyn?** | **Beth yw'r dyddiad heddiw?** | **Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf** |
| **Rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Mehefin 2024** | Cyn 21 Mai 2024 | Anfonwch eich ffurflen CCG1 atom nawr. |
| | Ar neu ar ôl 21 Mai 2024 | Bydd angen i chi gadarnhau'r swm mae'ch darparwr gofal plant wedi'i godi arnoch tan 27 Mai. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi lenwi ffurflen CCG2. **Rhaid** i chi anfon eich ffurflenni CCG1 a CCG2 atom **ar yr un pryd** – os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd hyn yn oedi'r broses o dalu'ch Grant Gofal Plant. Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen CCG2 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** |
| **Pryd fydd/wnaeth eich cwrs gychwyn?** | **Beth yw'r dyddiad heddiw?** | **Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf** |
| **Rhwng 1 Gorffennaf 2024 a 31 Gorffennaf 2024** | Cyn 20 Awst 2024 | Anfonwch eich ffurflen CCG1 atom nawr. |
| | Ar neu ar ôl 20 Awst 2024 | Bydd angen i chi gadarnhau'r swm mae'ch darparwr gofal plant wedi'i godi arnoch tan 26 Awst. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi lenwi ffurflen CCG2. **Rhaid** i chi anfon eich ffurflenni CCG1 a CCG2 atom **ar yr un pryd** – os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd hyn yn oedi'r broses o dalu'ch Grant Gofal Plant. Gallwch lawrlwytho copi o ffurflen CCG2 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** |

**Anfonwch eich ffurflen(ni) ac unrhyw ddogfennau eraill y mae angen i ni eu cael, at:**

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**